

Betws-y-Coed | Dyffryn Conwy

Conwy

Y CANLLAW POCED 2018/19



#CREUATGOFION



Castell Conwy

CESTYLL, ARFORDIR A CHEFN GWLAD

Dyffryn Conwy, gyda choedwigoedd trwchus o'r naill ochr iddo a rhosydd grug Hiraethog ar y llall. Yn wir, mae'n ardal hynod amrywiol, gyda phentref alpaidd Betws-y-coed ar un pen a thref hanesyddol Conwy ar y pen arall.

Mae Castell Conwy yn gastell arbennig o drawiadol ac yn Safle Treftadaeth y Byd hardd. Unwaith y byddwch chi wedi concro'r castell, beth am fynd am dro o amgylch waliau canoloesol Conwy ac ymgolli'n llwyr yn nrysa'r dref o strydoedd culion caregog, sy'n llawn tai hanesyddol.

Ewch i gwrdd â hen dywysogion yn arddangosfa Tywysogion Gwynedd arbennig Conwy, yna ewch i Gastell Dolwyddelan, eu cadarnle atmosfferaid yn y mynyddoedd.

Mae Betws-y-coed yn ganolfan ddefnyddol i ddringwyr, beicwyr a cherddwyr sy'n chwilio am antur ac i herio tirwedd garw Eryri. I'r anturiaethwr achlysurol mae yma ddigon o lwybrau cerdded ar hyd glannau afon a thrwy'r coed. Neu beth am fynd i'r coed yn Zip World Fforest? Mae yno gwrs ymosod fry yn y coed sy'n llawn siglenni, rhwydi a gwifrau sip yn ogystal â llwybr tobogan a Fforest Coaster.

GWYLIAU A DIGWYDDIADAU

Peidiwch â cholli allan! Ewch i'n gwefan i weld yr holl ddigwyddiadau mawr sy'n cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn yn Sir Conwy. dewchigonwy.org.uk



08



09



10

Y STORI YN LLAWN

- 04 Trefi a Phentrefi Arfordirol
- 07 Dyffryn Conwy ac Eryri
- 09 Hiraethog
- 10 Antur
- 14 Atyniadau Treftadaeth
- 18 Atyniadau Naturiol
- 20 Celf a Chrefft
- 21 Blas o Bwys
- 22 Canolfannau Croeso
- 23 Map o sir conwy a gwybodaeth teithio



Mae'r symbol hwn yn nodi atyniadau sydd fel arfer yn agored trwy'r flwyddyn.



Betws-y-Coed

COFIWCH!

Tra byddwch yma, ewch draw i Ganolfannau Croeso Betws-y-Coed a Chonwy. Bydd y staff cyfeillgar yn eich helpu i archebu tocynnau a chynllunio amserlen eich taith. Ac, os nad ydych eisoes wedi dod o hyd i rywle i aros, gallant eich helpu i ddewis eich llety defnyddol o'n dewis gwych o lety hefyd.



Trefi a Phentrefi ARFORDIROL

CONWY

Mae Conwy yn unigryw. Mae'r muriau hynafol sydd mewn cyflwr da, y rhai mwyaf cyflawn yn Ewrop, yn amgylchynu tref o strydoedd coblog cul, cilfachau yn llawn adeiladau hanesyddol.

Roedd Castell Conwy, sy'n Safle Treftadaeth y Byd, yn rhan allweddol o 'gadwyn haearn' o gestyll a adeiladwyd o amgylch Eryri yn y 13eg ganrif gan Edward I i reoli'r Cymry. Mae golygfeydd syfrdanol o'r murfylchau, gyda mynyddoedd Eryri i un cyfeiriad, Aber Afon Conwy i'r cyfeiriad arall. Ac yma cawn yr olygfa orau o'r dref yn ei chyfanrwydd, wedi'i hamgylchynu gan gyfres o furiau dros dri chwarter milltir o hyd ac wedi'u hamddiffyn gan 22 o dyrau.

Un o weithgareddau 'hanfodol' Conwy yw cerdded ar hyd y muriau hyn, cyn mentro i'r strydoedd islaw i ymweld â lleoedd megis Tŷ Aberconwy (enghraifft brin o gartref masnachwr o'r 14eg ganrif), Plas Mawr (y tŷ trefol sydd wedi goroesi orau yn y DU o Oes Elisabeth) a'r Tŷ Lleiaf twt. Ac, i gwblhau eich gwrs hanes, gallwch ymweld â Chanolfan Groeso Conwy i weld yr arddangosfa ddiddorol sy'n adrodd hanes Tywysogion Gwynedd.

Ymhlith yr atyniadau eraill mae'r Academi Frenhinol Gymreig a Phont Grog Thomas Telford. Mae Conwy Forol i'w gweld o hyd ar hyd y cei; mae'r harbwr yn llawn cychod ac mae rhai hyd yn oed yn cynnig teithiau. Yn ôl yn y dref mae cymysgedd unigryw o siopau i ddenu a bodhau – popeth o'r siop cigydd sydd wedi ennill gwobrau i siopau dillad ffasiynol ac orielau.



ATYNIADAU A LLEFYDD O DDIDDORDEB

- 1 Tŷ AberconwyB4
- 2 Teithiau Cychod.....A4
- 3 Amgueddfa Cregyn Gleision ConwyB5
- 4 Castell ConwyD5
- 5 Plas Mawr.....B3
- 6 Yr Academi Frenhinol Gymreig.....B3
- 7 Tŷ Lleiaf ym Mhrydain Fawr.....A4
- 8 Pont Grog a Tholty ConwyC6
- 9 Canolfan Ddiwylliant Conwy (Yn agor Haf 2019)B2

EGLWYSIA MANNAU

ADDOLI

(Nifer mewn cromfachau'n cyfeirio at eglwys)

- Eglwys yng Nghymru (1)C3
 Methodistaid (Saesneg) (2)....C4
 Presbyteriaid (Cymraeg) (3) ...A3
 Catholig (4)C1



Argraff arlunydd o Ganolfan Ddiwylliant Conwy

CANOLFAN DDIWYLLIANT CONWY



**Yn agor Haf 2019
01492 576139**

Dyma fydd porth treftadaeth Conwy, lle bydd modd i ymwelwyr ddarganfod mwy am hanes Conwy a chynllunio eu hymwelriad i rai o atyniadau mwyaf diddorol y sir. Mi fydd yma ganolfan ymwelwyr, llyfrgell a chaffi gyda gwybodaeth am hanes Conwy.



- 1 Atyniad / Lle o Ddiddordeb
- i Canolfan Groeso
- ★ Swyddfa Bost
- Stryd Unffordd
- P Maes Parcio Talu ac Arddangos
- Toiletau
- Toiletau gyda gweithiwr – ffi'n daladwy
- Toiled hygrch gyda chlo Cynllun Allwedd Cenedlaethol (RADAR)
- Meddygfa



Yr Olygfa o Gastell Deganwy



Penmaenmawr

DEGANWY

Ar draws Aber Afon Conwy yn Neganwy mae amrywiaeth eang o siopau dillad, lleoedd bwyta gwych a thraeth hir o dywod a cherrig, gyda golygfeydd gwych ar hyd arfordir y tir mawr ac Ynys Môn. Hefyd mae datblygiad marina cyffrous gyda gwesty, bwyta a sba ar y cei.

LLANFAIRFECHAN

Mae pentref hardd Llanfairfechan yn lle gwych i ddechrau cerdded yn y bryniau cyfagos hardd lle gallwch fwynhau golygfeydd aruthrol o Fôr Iwerddon, Afon Menai ac Ynys Môn. Beth am berffeithio eich sgiliau adeiladu cestyll ar y traeth? Mae'r traeth tywod eang yn lle delfrydol i gael picnic, padlo neu chwaraeon dŵr. Mae hefyd yn lle gwych i wylïo'r adar ger Gwarchodfa Natur Traeth Lafan gerllaw.

PENMAENMAWR

Mae gan y dref glan môr groesawgar hon amrywiaeth eang o siopau diddorol a phromenâd gyda pharc sglefrio, pwl padlo ac ardal chwarae i blant, felly mae'n ddelfrydol i deuluoedd. Hefyd, mae rhes o gytiâu traeth traddodiadol. Mae'r traeth tywod yn wych ar gyfer cerdded, chwaraeon dŵr a hwylio. Dilynwch y llwybr cerdded uwchdir a chanfod nifer o safleoedd hanesyddol, yn cynnwys Y Meini Hirion, sy'n dyddio i'r oes Efydd.




Llanfairfechan



PŴER PEDLO

Llwybr Beicio Cenedlaethol 5 yw ei enw swyddogol, ond yr ydym ni'n ei adnabod fel y llwybr beicio arfordirol rhwng Llanfairfechan a Bae Cinnel. Mae'r rhan fwyaf o'r llwybr yn ddi-drafftig, a gallwch ymuno ar wahanol fannau ar hyd y ffordd. Un o'r ffyrdd mwyaf gwyrdd o weld ein harfordir a'n cefn gwlad. Mae copïau ar gael o Fap Llwybr Beicio Conwy ar gael o Ganolfan Groeso Conwy neu Landudno neu gallwch ei lawrlwytho o dewchigonwy.org.uk



DYFFRYN CONWY AC ERYRI

BETWS-Y-COED

Mae'n un o'r lleoedd sydd byth yn cau, hyd yn oed ar ddydd Sul tywyll yng nghanol mis Rhagfyr. Sut gallai gau? Mae llawer gormod o alw.

Y gyrchfan brysur hon yn y mynyddoedd yw'r pentref sy'n 'borth i Eryri'. Yn ogystal â'r dewis aruthrol o weithgareddau awyr agored ar garreg y drws, mae'n bosibl esbonio poblogrwydd Betws drwy ei ystod ragorol o siopau, sy'n gwerthu popeth o grefftau cywrair i esgidiau cerdded. Mae'r pentref, sydd wedi'i leoli yng nghanol y coed ac ar lan afonydd ar gyrion Parc Coedwig Gwydyr, wedi bod yn ffefryn yn Eryri ers oes Fictoria, a dyfodiad y rheilffordd. Ymhlith ei atyniadau niferus mae amgueddfa drenau, cwrs golff, llwybrau cerdded ag arwyddion, Rhaeadrau Ewynnol, rhaffau antur uchel yn Zip World Fforest a'r atyniad diweddaraf, y llwybr toboganau Fforest Coaster. Mae gan y pentref Ganolfan Groeso Parc Cenedlaethol Eryri sy'n cynnwys arddangosfa ar Dywysogion Gwynedd ac ystafell sy'n ail-greu'r profiad o sefyll ar gopa'r Wyddfa.

ROWEN

Mae Rowen yn bentref sy'n cael ei ystyried gan lawer y pentref harddaf yn y sir, wedi'i leoli ar droed Mynydd Tal-y-Fan. Mae gerddi blaen y bythynnod cerrig yn llawn blodau yn y gwanwyn a'r haf ac mae tafarn wledig hyfryd, sy'n ddelfrydol ar gyfer gorffwys wrth gerdded ar hyd y rhwydwaith o lwybrau.



Capel Gwydir, Llanrwst

LLANRWST

'Prif dref' a thref farchnad hanesyddol hardd Dyffryn Conwy. Mae capel hardd Capel Gwydir wedi'i lleoli yn Eglwys Sant Grwst ar Lwybr Tywysogion Gwynedd. Mae'n cynnwys arch cerfedig cain arweinydd canoloesol y Cymry, Llywelyn Fawr, a fu farw yn Abaty Aberconwy yn 1240.

Mae Castell Gwydir a Chapel Gwydir Uchaf gerllaw yn datgelu mwy am orffennol cyffrous yr ardal. Mae Parc Coedwig Gwydir yn ffinio â Llanrwst, ac mae'n ardal hyfryd gyda nifer o lwybrau ar gyfer cerddwyr o bob gallu. Mae'r llwybrau hyn gydag arwyddion yn eich tywys o amgylch llynnoedd mynyddig cuddiedig i drefnadaeth ddiwydiannol, golygfannau hardd i hanes lleol a chwedl Dafydd ap Siencyn, 'Robin Hood' y goedwig.



Llynau Mymbyr, Capel Curig

TREFRIW

Mae melin wlân enwog Trefriw yn cynhyrchu gwaith tapestri a brethyn cartref Cymreig unigryw. Mae Llyn Crafnant, llyn pysgota a Llyn Geirionydd, sy'n boblogaidd ar gyfer chwaraeon dŵr wedi'u cuddio yn y brynau coediog uwchben. Gallwch gerdded o amgylch y pentref deniadol drwy ddilyn rhai o Lwybrau Trefriw.

DOLWYDDELAN

Mae pentref heddychlon Dolwyddelan yn Nyffryn Lledr yn lleoliad delfrydol ar gyfer teithio o amgylch yr ardal wledig gyfagos, yn cerdded, dringo, canŵio, beicio mynydd a physgota. Mae'r pentref yn enwog fel man geni Tywysog Llywelyn Fawr. Mae Castell dramatig Dolwyddelan, a adeiladwyd gan Llywelyn rhwng tua 1210 a 1240 yn sefyll ar grib greigiog gyda golygfeydd aruthrol ar draws Dyffryn Lledr.

PENMACHNO

Teithiwr i Benmachno yng Nghwm Machno i ddianc rhag popeth. Mae yna lwybrau cerdded hyfryd yn y coedwigoedd, yn arbennig ger Rhaeadrau'r Graig Lwyd a Machno. Gallwch hefyd farchogaeth ceffylau a dilyn y llwybr beiciau mynydd. Tŷ Mawr Wybrnant oedd man geni'r Esgob William Morgan, a gyfieithodd y Beibl am y tro cyntaf i'r Gymraeg. Mae'r tŷ ei hun yn rhoi darlun diddorol o fywyd yng nghefn gwlad Cymru yn y 16eg a'r 17eg ganrif ac mae'n cynnwys un o feiblau gwreiddiol Morgan.

CAPEL CURIG

Wedi'i leoli ar odre mynyddoedd Moel Siabod, Y Glyderau a'r Carneddau, mae Eryri ar garreg eich drws fwy neu lai. Mae Afon Llugwy yn llifo drwy'r pentref i'r rhaeadr hardd ym Mhont Cyfng, ac mae Canolfan Fynydd Genedlaethol Plas y Brenin gerllaw, ger Llynau Mymbyr.



HIRAETHOG

Y prif atyniad yma yw Mynydd Hiraethog ei hun. Mae gan yr ardal hon o ehanger rhostir a choedwigoedd enfawr gyda'r awyr agored di-ben-draw uwchlaw, gymeriad unigryw a hudolus.

Cerrigydrudion yw un o'r prif anheddau. Mae'r pentref, sydd ar yr A5 ar bwynt deheuol y porth i Hiraethog, yn gartref i un o draciau cartio mwyaf a gorau'r DU – Cartio GYG. Byddwch yn cyrraedd cyflymder o 60mya wrth i chi lywio o amgylch y trac. Fel pentref cyfagos Llanfihangel Glyn Myfyr, mae Cerrigydrudion yn lleoliad cychwynnol da ar gyfer y rhan hon o'r byd.

Gellir dweud yr un peth am Bentrefoelas, sydd hefyd ar yr A5. Arferai'r goats fawr aros yma ar y prif lwybr i Ogledd Cymru.

Mae teithiwr yr oes hon – yn arbennig y rhai sy'n hoff iawn o siocled - yn ymweld â'r Riverside Chocolate House a'r Ystafell De i fwynhau'r danteithion a wnaed â llaw.

Mae'r rhan fwyaf o deithiwr sy'n mentro i Hiraethog yn anochel yn ymweld â Llyn Brenig. Mae'r gronfa ddŵr a llyn llai Llyn Alwen gerllaw yn cynnig ystod gyflawn o gyfeusterau hamdden yn cynnwys cerdded, beicio, beicio mynydd, pysgota, hwylio a gwyllo adar. Mae canolfan wych i ymwelwyr yn Llyn Brenig hefyd, man cychwyn da i gael gwerthfawrogiad dyfnach o drefnadaeth a hanes cyfoethog Hiraethog, sy'n ymestyn yn ôl i'r cyfnod cynhanes.

www.hiraethog.org.uk





Antur

Os ydych wrth eich bodd yn yr awyr agored, rydych yn y lle cywir. Mae gennym bob gweithgarwch y gallwch eu dychmygu, a'r golygfeydd gorau i wneud y rhain ynddynt. Mae ein dewis aruthrol o weithgareddau yn amrywio o ddringo ac abseilio, chwaraeon dŵr, pysgota a cherdded, i farchogaeth ceffylau, beicio a beicio mynydd, golff a chwaraeon eithafol.



CANOLFAN FYNYDD GENEDLAETHOL PLAS Y BRENIN



**Cyf Map:F2 Capel Curig
01690 720214 pyb.co.uk**

Profwch antur eich bywyd yng Nghanolfan Fynydd Genedlaethol Plas y Brenin. Mae cyrsiau amlweithgareddau llawn antur ar gael, yn cynnwys dringo creigiau, abseilio, canŵio, caiacio, cyfeiriannu a cherdded mynyddoedd, gyda hyfforddwy'r arbenigol ar gael drwy'r flwyddyn.

CRONFA DDŴR A CHANOLFAN YMWELWYR LLYN BRENIG



**Cyf Map:G8 Cerrigydrudion
01490 420463**

llyn-brenig.co.uk

Darganfyddwch Llyn Brenig yng nghanol coedwigoedd a rhostiroedd hardd Hiraethog. Gallwch gerdded, beicio, pysgota plu, hwylio, canŵio a caiacio ar y dŵr, neu ymlacio a mwynhau'r golygfeydd. Mae'r ganolfan i ymwelwyr a'r caffï ar agor bob dydd drwy'r flwyddyn (ac eithrio 25 a 26 Rhagfyr a 1 Ionawr). Mae maes chwarae antur gerllaw. Llyn Brenig yw un o'r ychydig lynnoedd sy'n cael ei gadw'n benodol ar gyfer pysgota plu.

GO BELOW UNDERGROUND ADVENTURES



**Cyf Map:G4 Betws-y-Coed
01690 710108 go-below.co.uk**

Teithiau ymchwil tanddaearol gwirioneddol a thywysiedig drwy hen chwarelly Eryri. Teithiwrch ar hyd y wifren wib, abseilio, rhwyfo, dringo a chroesi drwy geudyllau mawr dwfn ac ar draws y llynnoedd glas sydd bellach yn angof. Rhowch gynnig ar y wifren wib danddaearol – yr hiraf a'r ddyfnaf yn y byd a'r unig gwmp rhydd tanddaearol yn y byd – sy'n 70 troedfedd o uchder! P'un a ydych yn ymuno â ni am y tro cyntaf, yn un sy'n cael gwefr o'r holl adrenalin, yn deulu, grŵp neu unigolyn, mae antur lawn cyffro i bawb a does dim angen profiad blaenorol.

ZIP WORLD FFOREST



**Cyf Map:G4 Betws-y-Coed
01248 601444 zipworld.co.uk**

Yma fe gewch chi anturiaethau i'r teulu cyfan, o'r hawdd i'r heriol. Mwynhewch daith drwy ganopi'r coed ar y Zip Safari, neidiwch ac archwiliwch ar y Treetop Nets a siglwch dros y coed ar y Skyride – y siglen pum sedd anferth. Neu beth am wibio a rhuthro drwy'r coed ar y Fforest Coaster? Ac i'r anturiaethwyr bychain mae yna rwystrau fry yn yr awyr a gwifrau sip ar y cwsr Tree Hoppers. Ac wedi diwrnod prysur o wibio fe allwch chi eistedd i lawr ac ymlacio yn y Zip World Fforest Caffi.

SURF SNOWDONIA

**Cyf Map:D3 Dolgarrog
surfsnowdonia.com**

Lagŵn syrffio mewndirol cyntaf y byd ac mae sicrwydd o donnau bob tro! Gwersi, cyrsiau a syrffio rhydd ar gyfer unigolion o bob oedran a gallu. Gan gynnwys y cwsr rhwystrau Crash a Sblash a'r catapwlt 'Blob', man chwarae meddal i blant, bwyty a bar. Mynediad a pharcio am ddim.

LLWYBR GWYDIR

**MAWR Cyf Map:F3 Coedwig
Gwydyr, mbwales.com**

Mae Llwybr Gwydir Fawr yn 15 milltir a hanner o adrenalin pur, gyda dringfeydd heriol, disgynfeydd mawr a golygfeydd ysblynydd. Mae yno hefyd lwybr 5 milltir a hanner, Llwybr Gwydir Bach, sy'n cwmpasu rhan o'i frawd mawr.

LLWYBRAU BEICIAU MNYDD PENMACHNO

**Cyf Map:H4
penmachnobiketrails.org.uk**

Llwybr unigol 30 cilomedr o hyd drwy'r goedwig gyda golygfeydd aruthrol ac ymdeimlad gwirioneddol o antur beicio mynydd. Mae'r llwybr wedi'i rannu yn ddwy ddolen y gellir eu beicio yn unigol neu fel un reid 30 cilomedr wych.



Mynydd y Dref, Conwy

PYSGOTA

PYSGOTA O'R LAN

Rhowch gynnig ar bysgota o'r lan o Ddeganwy, Conwy, Penmaenmawr a Llanfairfechan.

GENWEIRIO MÔR

Cyf Map:B3

Ewch ar daith ar long siarter gyda chapten profiadol (os bydd y tywydd yn caniatáu, wrth gwrs!). Yn ddibynnol ar y tymor gallwch bysgota ger y glannau am fôr-wyniaid, penfreision ifainc, draenogod y môr, mecryll a mwy. Neu gallwch fentro ymhellach am forleisiaid, penfreision, llysywod môr a chelogaidd. Ceir manylion yn lleol.

GÊM-BYSGOTA AFON CONWY

fishing.visitwales.com

Mwynhewch olygfeydd a thawelwch aruthrol Afon Conwy ym Metws-y-coed a chanfod yr eog a brithyll y môr. Uwchlaw Rhaeadr y Garreg Lwyd fe welwch fannau gwych i bysgota am frithyll ac, yn un o isafonydd Afon Conwy, Afon Llugwy, gallwch bysgota am frithyll ac eog.

COFIWCH!

Ar gyfer gêm-bysgota a physgota bras, mae'n rhaid bod gennych drwydded gan y gymdeithas briodol neu'r perchennog a thrwydded wialen genedlaethol. I gael rhagor o wybodaeth ewch i: environment-agency.gov.uk

GÊM-BYSGOTA DYFROEDD

Cyf Map:E3

Llyn Crafnant, Trefriw

01492 640818

crafnant.free-online.co.uk

Ewch i gyfeiriad y brynau coediog uwchlaw Trefriw i Llyn Crafnant. Mae'r llyn mynydd hardd hwn yn dri chwarter milltir o hyd, yn cwmpasu 63 acer, ac mae'n llawn brithyll seithliw, a gallwch bysgota ar y glannau neu o gwch.



Pysgota



Marchogaeth

GOLFF

CLWB GOLFF BETWS-Y-COED



Cyf Map:G3 01690 710556
golf-betws-y-coed.co.uk

Cwrs parcdir 9 twll.

CLWB GOLFF CONWY (SIR GAERNARFON)



Cyf Map:B3 01492 593400
conwygolfclub.co.uk

Cwrs twyni 18 twll.

CLWB GOLFF LLANFAIRFECHAN



Cyf Map:C1 01248 680144
llanfairfechangolfclub.co.uk

Cwrs parcdir 9 twll.

CLWB GOLFF PENMAENMAWR



Cyf Map:B2
01492 623330
pengolf.co.uk

Cwrs parcdir 9 twll.

MARCHOGAETH

GWYDYR RIDING AND TREKKING



STABLES Cyf Map:F3/H3
Penmachno, 01690 760248
horse-riding-wales.co.uk

Wedi'i amgylchynu gan dir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chyfoeth Naturiol Cymru, mae Gwydyr Stables yn cynnig lleoliad gwych i farchogaeth ceffylau a merlota i ddechreuwyd a marchogwyr profiadol. Gallwch farchogaeth am ddim ond hanner awr, awr neu hyd at ddiwrnod cyfan, yn cynnwys gyda'r nos yn ystod yr haf. Mae hyfforddwyr cymwys yn cynnal teithiau marchogaeth ar ddeuwis o dros 30 o geffylau. Gellir trefnu seibiannau marchogaeth preswyl hefyd.

CERDDED

COEDWIG GWYDYR

Cyf Map:F3/H3

Betws-y-Coed a Llanrwst
naturalresourceswales.gov.uk

Mae Coedwig Gwydyr yn ymestyn dros 7,250 hectar ar fryniau dwyreiniol Eryri. Gallwch gerdded ar hyd y llwybrau, hen lwybrau'r mwynwyr, llwybrau beicio a llwybrau cerdded sefydledig yn y goedwig. Yn ogystal â chyfluoedd cerdded gwych, gallwch astudio'r bywyd gwylt, beicio, dringo, pysgota neu fwynhau'r coedwigoedd tawel.

GWASANAETH CEFN GWLAD CONWY

01492 575200 conwy.gov.uk

Llwybrau mynyddig creigiog a theithiau cerdded gyda thywod rhwng eich bysedd traed. Llwybrau cerdded drwy goedwigoedd a theithiau cerdded treftadaeth. Teithiau cerdded rhwydd i'r teulu, heriau anodd ar dir uchel i gerddwyr brwd. Cerdded yw ein gweithgarwch mwyaf poblogaidd yn yr awyr agored. Mae gan Wasanaeth Cefn Gwlad Conwy nifer o daflenni gwahanol i'ch ysbrydoli. Mae manylion ar gael ar y wefan.

CANOLFANNAU HAMDDEN



conwy.gov.uk mae rhestr lawn o'r gweithgareddau a'r amseroedd agor


PWLL NOFIO LLANRWST (Cyf Map:F4)
01492 577932 / 577933

CANOLFAN HAMDDEN DYFFRYN CONWY (Cyf Map:F4)

01492 577938 / 577939

CANOLFAN HAMDDEN CYFFORDD LLANDUDNO (Cyf Map:B4) 01492 577925

ATYNIADAU Trefstadaeth



Plas Mawr, Conwy

GWNEUD HANES

Mae tref Conwy yn fan cychwyn da i ddechrau archwilio'r hanes lleol. Mae'r castell dramatig o'r 13eg ganrif yn ymgodi uwchben un o'r enghreifftiau gorau o dref gaerog ganoloesol yn Ewrop. Ond dim ond rhan o'r hanes yw castell a muriau tref nerthol Conwy, a adeiladwyd gan y Brenin Edward I o Loegr, fel y gallwch ei ddarganfod wrth ymweld ag arddangosfa Tywysogion Gwynedd yng Nghanolfan Groeso Conwy.

Credir mai Tŷ Aberconwy, sy'n dyddio'n ôl i'r 14eg ganrif, yw un o'r tai trefol hynaf sydd wedi goroesi yng Nghymru, a gerllaw mae Plas Mawr, tŷ trefol o oes Elisabeth gyda'i dŵr trawiadol a'i waith plastr mewnlol unigryw. Mae Castell Gwydir, sydd wedi'i leoli mewn gerddi bendigedig yn Nyffryn Conwy, yn un o'r enghreifftiau gorau yng Nghymru o dŷ cwrt Tuduraidd.



Tŷ Aberconwy

Tŷ ABERCONWY

Cyf Map:B3
Conwy, 01492 592246
nationaltrust.org.uk

Credir mai'r tŷ masnachwr hwn sy'n dyddio o'r 14eg ganrif yw'r tŷ tref hynaf yng Nghymru, ac mae'n arddangos arddulliau Jacobeaidd, Sioraidd a Fictoraidd y tu mewn i'r adeilad. Mae'r tŷ ar agor bob dydd o 8 Mawrth tan 4 Tachwedd, o 10am tan 5pm. Ar agor ar benwythnosau rhwng 10 Tachwedd a 23 Rhagfyr, o 11am tan 4pm. Gweler y wefan am amseroedd agor 2019.

CASTELL CONWY

Cyf Map:B3 Conwy
01492 592358
cadw.gov.wales

Cafodd Castell Conwy ei adeiladu ar gyfer y Brenin Edward I o Loegr rhwng 1283 a 1287 ac mae bellach yn Safle Trefstadaeth y Byd UNESCO. Dringwch un o'r wyth tŵr anferth i gael y golygfeydd gorau o'n haber hardd a beth am ymweld â'r castell ar ôl iddi dywyllu, pan fydd wedi'i oleuo. Mae'n hudolus. Ar agor pob dydd ac eithrio 24, 25, a 26 Rhagfyr ac 1 Ionawr. Gweler y wefan am amseroedd agor.



Castell Dolwyddelan

AMGUEDDFA RHEILFFORDD DYFFRYN CONWY

Cyf Map:G3 Betws-y-Coed
01690 710568
conwyrailwaymuseum.co.uk

Ewch ar daith ar y rheilffordd fach neu cerddwch o amgylch yr amgueddfa ddiadorol i weld modelau a chynlluniau trên yn gweithio. Mae'r trenau yn rhedeg bob dydd o 10.30am, yn ddibynol ar y tywydd (ac eithrio'r Nadolig a dydd Gŵyl San Steffan).



Amgueddfa Rheilffordd Dyffryn Conwy

CASTELL DOLWYDDELAN

Cyf Map:H2
Dolwyddelan, 01690 750366
cadw.gov.wales

Saif castell trawiadol Dolwyddelan ar ei grib greigiog gyda golygfeydd aruthrol dros Ddyffryn Lledr. Fe'i hadeiladwyd rhwng tua 1210 a 1240 gan Dywysog Llywelyn 'Fawr', a chafodd ei ailfodelu gan y Brenin Edward I. Ar agor pob dydd ac eithrio 24, 25, a 26 Rhagfyr ac 1 Ionawr. Gweler y wefan am amseroedd agor.



CASTELL GWYDIR

Cyf Map:F4

Llanrwst, 01492 641687
gwylidirect.co.uk

Castell Gwydir, a adeiladwyd ym 1490 ar gyfer teulu'r Wynniaid, yw un o'r enghreifftiau gorau o ddy cwrw Tuduraidd yng Nghymru. Mae gan yr adeilad gysylltiadau â'r Brenin Charles I, a chredir iddo ymweld â'r castell ym 1645. Defnyddiwyd deunyddiau o Abaty Maenan gerllaw, ar ôl iddo gael ei ddi-ddymu, ar gyfer ychwanegiadau pensaernïol yn y 1540au. Mae Gwydir yn enwog am ei baenod, sy'n cerdded yn falch o amgylch yr ardd restredig Gradd 1 10 acer o faint. Ar agor o 1 Ebrill i 31 Hydref 10am-4pm, ar gau ar ddydd Llun a dydd Mawrth. Ar agor ar benwythnosau Gŵyl y Banc. Teithiau tywys drwy drefniant.

CAPEL GWYDIR UCHAF

Cyf Map:F4 Llanrwst

Wedi'i leoli yn y goedwig uwchben Castell Gwydir, cafodd y capel ei adeiladu ym 1673 gan Syr Richard Wynn, fel capel coffa i deulu'r Wynniaid o Wydir, ac mae'n enwog am ei nenfwd paentiedig cain. Gellir trefnu mynediad i'r capel drwy apwyntiad. Cysylltwch â deiliad yr allwedd ar 01492 641687.

AMGUEDDFA PENMAENMAWR

Cyf Map:B2 Yr Hen Swyddfa Bost, Conwy Old Road
01492 575535

penmaenmawrmuseum.co.uk

Amgueddfa annibynnol yn dechrau ar bennod newydd o ddatblygu'r hyn sydd ganddi i'w gynig. Arddangosfeydd dros dro ar y thema treftadaeth



leol. Ar agor 1 Mehefin hyd at 30 Medi; dydd Mercher, llaw, Gwener a Sul rhwng 2-4pm a dydd Sadwrn 10am tan 12 canol dydd. Derbynnir grwpiau drwy gydol y flwyddyn drwy apwyntiad. Gweler y wefan am amseroedd agor 2019.

Tŷ TREFOL PLAS MAWR O OES ELISABETH

Cyf Map:B3

Stryd Fawr, Conwy
01492 580167 / 573605
cadw.gov.wales

Mae'n debyg mai dyma yw'r tŷ trefol gorau o oes Elisabeth sydd wedi goroesi ym Mhrydain ac yn sicr y cartref mwyaf mawreddog yng Nghonwy. Cafodd Plas Mawr ei adeiladu rhwng 1576 a 1585 gan y masnachwr cyfoethog Robert Wynn. Cartref y teulu oedd Castell Gwydir. Y tu mewn mae'n llawn gwaith plastr addurniadol, dodrefn gwreiddiol a mwy nac un sgerbwd yn y cwpwrdd. Ar agor bob dydd: 24 Maw i 30 Medi 9.30am i 5pm. 1 Hyd i 4 Tach 9.30am i 4pm. Gweler y wefan am amseroedd agor 2019.

ARDDANGOSFA TYWYSOGION GWYNEDD

Cyf Map:B3

Stryd Rosehill, Conwy
01492 577566
snowdoniaheritage.info/
cy/theme/29/princes-of-gwynedd/

Dim ond rhan o'n hanes yw'r cestyll nerthol a adeiladwyd gan Frenin Edward I o Loegr. Darganfyddwch fwy am Dywysogion brodorol Gwynedd mewn arddangosfa yng Nghanolfan Groeso Conwy,



sy'n cynnwys arddangosfeydd rhyngweithiol, mapiau, barddoniaeth a cherddoriaeth Cymraeg.

Y Tŷ LLEIAF YM MHRYDAIN FAWR

Cyf Map:B3

Cei Conwy, Conwy
thesmallesthouse.co.uk

Mae'r tŷ bach coch hwn yn 3.1 metr o uchder ac yn 1.83 metr o led a chaiff ei adnabod yn swyddogol yn y Guinness Book of Records fel y tŷ lleiaf yn y wlad. Roedd preswlydd olaf y tŷ hwn yn bysgotwr a oedd yn 6 troedfedd 3 modfedd! Mae'r tŷ ar agor bob diwrnod o fis Ebrill hyd at ddiwedd mis Hydref, 10am – 4pm (ar agor tan 6pm yn ystod y gwyliau ysgol).

PONT GROG A THOLLY THOMAS

TELFORD Cyf Map:B3

Conwy, 01492 592246
nationaltrust.org.uk

Wedi'i leoli y drws nesaf i'r castell, cafodd pont grog Conwy ei chynllunio a'i hadeiladu gan Thomas Telford ym 1826 yn lle'r fferi a oedd yn croesi'r rhan beryglus hon o Afon Conwy. Mae'r toltly bychan wedi'i adnewyddu a'i ddodrefnu yn arddull y 1890au. Y bont: Ar agor bob dydd 8 Maw i 4 Tach, 11am i 4.15pm. Gweler y wefan am amseroedd agor 2019.

MELINAU GWLÂN TREFRIW

Cyf Map:E3 Trefriw

01492 640462 t-w-m.co.uk

Gan ddefnyddio dŵr o lynnoedd Crafnant a Geirionydd gerllaw i gynhyrchu ei bŵer trydanol, mae'r felin wedi bod yn cynhyrchu cwrldau a brethyn cartref am dros 150 o flynyddoedd. Y siop a'r



tyrbin: ar agor drwy'r flwyddyn Llun-Sad (a Dydd Sul Gŵyl Banc y Gwanwyn i fis Medi). Gwehyddu: canol Chwef hyd at ganol Rhag: Dydd Llun i Ddydd Gwener, ac eithrio Gwyliau'r Banc. Amgueddfa'r Felin: Y Pasg hyd at ddiwedd Hyd: Dydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio Gwyliau'r Banc). Ewch i'r wefan i weld dyddiadau'r arddangosiadau nyddu â llaw a gwneud carped carpiu ac amseroedd agor 2019.

Tŷ MAWR WYBRNANT

Cyf Map:H4

Penmachno, 01690 760213
nationaltrust.org.uk

Tŷ Mawr Wybrnant, yn Nyffryn anghysbell Wybrnant, oedd man geni yr Esgob William Morgan (1545-1604), a gyfieithodd y Beibl am y tro cyntaf i'r Gymraeg. Mae'r tŷ ei hun yn darparu cipolwg diddorol o fywyd yng Nghymru wledig yn ystod y 16eg a'r 17eg ganrif ac mae'n cynnwys un o feibla gwreiddiol Morgan. Ar agor o ddydd lau i ddydd Sul o 15 Maw i 30 Medi 12 i 5pm. 4 Hyd i 4 Tach 12 i 4pm. (Ar Agor ar Ddydd Llun Gwyliau'r Banc). Gweler y wefan am amseroedd agor 2019.

AMGUEDDFA SYR

HENRY JONES Cyf Map:D5

Llangernyw, 01745 860630
sirhenryjonesmuseum.co.uk

Y bwthyn gweithiwr hwn o'r 19eg ganrif oedd man geni Syr Henry Jones (1852-1922), a drawsnewidiodd addysg yng Nghymru. Mae'r amgueddfa ddiddorol hon yn darlunio bywyd gwledig yng Nghymru yn ystod oes Fictoria, ac mae ar agor o 28 Mai i 1 Hyd – dydd lau, Gwener, Sadwrn a Gwyliau'r Banc. Gweler y wefan am amseroedd agor 2019.

ATYUNIADAU Naturiol

GARDD BODNANT

Cyf Map:C4 Eglwysbach, 01492 650460
nationaltrust.org.uk/bodnant-garden

Mae'r gerddi godidog ym Modnant yn cael eu cydnabod ymhlith y gorau yn y DU. Mae yna erddi teras, lawntiau a gerddi gwyllt ac amrywiaeth enfawr o blanhigion a blodau o bob cwr o'r byd, yn ogystal â golygfeydd bendigedig o Ddyffryn Conwy ac Eryri. 1 Ion i 28 Chwef 10am i 4pm, 1 Maw i 30 Ebrill 10am i 5pm, 1 Mai i 30 Mehefin 9am i 5pm, 1 Gorff i 31 Hyd 10am i 5pm, 1 Tach i 23 Rhag 10am i 4pm, 27 Rhag i 31 Rhag 10am i 4pm. Ar agor tan 8pm ddydd Mercher o fis Ebrill i ddiwedd mis Medi. Gweler y wefan am amseroedd agor 2019.



GWARCHODEFA NATUR RSPB CONWY

Cyf Map:B4
Aber Afon Conwy
01492 584091
rspb.org/conwy

Mae gan y warchodfa natur hardd hon ar lannau aber afon Conwy rwydwaith o lwybrau cerdded sy'n eich tywys o amgylch cyfres o lagwnau, drwy ddolydd ac ar hyd yr aber. Mae ystod aruthrol o adar diddorol i'w gweld ar hyd y flwyddyn a gallwch eu gwyllo o bwyntiau arsylwi cuddiedig sy'n edrych allan dros y dŵr. Dyddiau i'r teulu, teithiau tywys a marchnadoedd yw rhai o'r digwyddiadau ar y calendr digwyddiadau prysur. Ar agor bob dydd (ac eithrio'r Nadolig) Canolfan Ymwelwyr 9.30am – 5pm.



CANOLFAN CADWRAETH A GWARCHOD NATUR PENSYCHNANT

Bwch Sychnant, Conwy
01492 592595
pensychnant.co.uk

Mae Pencychnant yn cael ei rheoli fel gwarchodfa natur a chanolfan gadwraeth i bawb sy'n gwerthfawrogi bywyd gwyllt a harddwch naturiol. Ewch yno yn y gwanwyn/haf i weld gwybedog cefnddu, tingochiaid ac adar mudol prin eraill. Ewch i weld y tŷ Gothig Fictoraidd a'r arddangosfeydd celf bywyd gwyllt amrywiol. Mae nifer o deithiau cerdded natur a sgysiau yn cael eu cynnal gan Sefydliad Pencychnant ac elusennau bywyd gwyllt eraill. Gweler y wefan am amseroedd agor.

SIGHTSEEING CRUISES

Cyf Map:B3
Cei Conwy, 07917 343058
sightseeingcruises.co.uk

Llamwch ar fwrdd y Queen Victoria i gael mordaith golygfeydd i fyny Afon Conwy i Ddyffryn Conwy, neu allan i'r aber i weld y golygfeydd godidog o Ynys Môn, Ynys Seiriol, arfordir y tir mawr a Môr Iwerddon. O fis Chwefror i fis Hydref (yn amodol ar y llanw). I gael gwybodaeth am amseroedd gadael a hyd teithiau, edrychwch ar yr hysbysfyrddau ar y cei.



RHAEADR EWYNNOL

Cyf Map:G3 Betws-y-Coed
01490 420486

Mae'r gyfres hardd hon o raeadrau ar Afon Llugwy yn fydenwog, a hynny'n haeddiannol. Mae golygfeydd gwych o'r rhaeadr o lan ddeheuol yr afon, ond yr olygfa orau (a'r fwyaf dramatig o bell ffordd) yw o lan ogleddol yr afon.



CONWY WATER GARDENS

Cyf Map:C3
Rowen, 01492 650063

conwywatergardens.co.uk
Mae Conwy Water Gardens wedi'i leoli yn harddwch Dyffryn Conwy ar gyrion Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r safle'n cynnwys canolfan ddŵr, 3 llyn pysgota bras llawn pysgod, Dutch Pancake House and Restaurant, tŷ ymlusgiaid, taith gerdded natur ac ardal chwarae i blant. Gweler y wefan am amseroedd agor.



CONWY FALLS FOREST PARK

Cyf Map:H4 Penmachno
01690 710336
conwyfalls.com

Wedi'i adeiladu gan bensaer enwog Portmeirion, Clough Williams-Ellis, mae'r caffn yn gweini bywd cartref a diodydd. Mae £1 yn rhoi mynediad i chi i rhaeadr drawiadol y Graig Lwyd. Mae llwybrau yn arwain drwy'r goedwig i lawr at y rhaeadr drwy'r coetir sy'n SoDdGA. Mae'r rhaeadr yn gartref i lwybr pysgod o oes Fictoria ac ysgol fodern i eogiaid.



COFIWCH!

Gall amseroedd agor a chyfleusterau newid heb rybudd felly cysylltwch â'r atyniadau unigol cyn cychwyn.



Yr Academi Frenhinol Gymreig, Conwy

CELF A CHREFFT

Mae gan Fetws y Coed a Chonwy ystod ddeniadol o siopau crefftau a galerïau arbenigol tra bo Melin Wlân Trefriw yn wych ar gyfer tapestrïau Cymreig a wneir yn y dull traddodiadol Cymreig.

CANOLFAN GREFFTAU BODNANT

Cyf Map:C4 Gardd Bodnant, Eglwysbach
01492 651000 bodnantcraftcentre.co.uk



Mae gan Ganolfan Grefft Bodnant dros bumdeg o gynhyrchwyr gwahanol nwyddau celf a chrefft leol. O ganlyniad ceir ystod eang o sgiliau a chreadigrwydd i'w harddangos: o waith nodwydd ffelt i dirluniau; o ffotograffiaeth i ddodrefn, troi pren, gemwaith arian, gwydr sy'n cael ei danio mewn odyr, gwaith cerameg, a llawer mwy o siediau hyfyrd wedi'u trawsnewid wrth ymyl Canolfan Gardd Bodnant. Ar agor bob dydd gyda mynediad am ddim rhwng 10am a 5.30pm mis Mawrth i fis Hydref a rhwng 10am a 5pm mis Tachwedd i fis Chwefror.

YR ACADEMI FRENHINOL GYMREIG

Cyf Map:B3
Conwy, 01492 593413
rcaconwy.org



Mae'r Academi Frenhinol Gymreig yn ymroddedig i arddangos o gelfyddydau gweledol yng Nghymru ac mae ei haelodau yn cynnwys nifer o arlunwyr mwyaf poblogaidd ac uchel eu parch yng Nghymru. Mae'r oriel yn cynnal arddangosfeydd blynyddol, sgyrsiau, arddangosiadau a gweithdai. Mae'r oriel ar agor drwy'r flwyddyn, dydd Mawrth i ddydd Sadwrn, 11am i 5pm.

ORIEL Y CROCHENWYR

Cyf Map:B3
Conwy, 01492 593590
thepottersgallery.co.uk



Mae'r oriel hon yng Nghonwy yn arddangos gwaith tua ugain o gynllunwyr/gwneuthurwyr lleol ac mae'n cynnwys amrywiaeth eang o waith cerameg – o nwyddau i'r cartref i ddarnau a cherfluniau i gasglwyr.



Melinau Gwlân Trefriw

Mae pob cyfeiriad map yn cyfeirio at y map o Sir Conwy yng nghanol y cyhoeddiad hwn.



Blas o Bwys

Mae bywd yn bwysig yn yr ardal hon.



A pha ryfedd, gan fod gennym gynnyrch mor wych yn lleol? Mae'r dewis yn eang: gregyn gleision Conwy, cig eidion gwartheg duon Dyffryn Conwy, cig oen o'r mynydd a cawsiau fferm. O ran diodydd, mae yma sawl bragdy bach lleol, cynhyrchwyr jin a hyd yn oed gwinllan sy'n cynnig gwinoedd gwyn cynnil, gwinoedd coch o gryfder canolig, gwinoedd gwridog ffrwythus a gwin pefriog hawdd ei yfed.

Bydd ein siopau, siopau fferm a delicatessen yn siŵr o'ch temtio hefyd. Galwch heibio lleoedd fel Edwards o Gonwy, Canolfan Bwyd Cymru Bodnant a Blas ar Fwyd yn Llanrwst, siop sydd wedi ennill sawl gwobr ac sy'n llawn dop o ddanteithion.

BWYD CYMRU BODNANT

Cyf Map:D4

Tal-y-Cafn 01492 651100
bodnant-welshfood.co.uk

Os ydych chi'n hoff iawn o'ch bywd yna beth am fynd am dro i Ganolfan Bwyd Cymru Bodnant yn Nyffryn Conwy, lle mae'r hen adeiladau fferm wedi eu troi'n farchnadfa sy'n gwerthu'r cynnyrch lleol gorau. Mae yna hufenfa, safle bwtsiera a becws, yn ogystal â bwty ac ystafell de. Gweler y wefan am amseroedd agor.



GWINLLAN CONWY

Cyf Map:B4 Llangwstenin
Cyffordd Llandudno
01492 545596

gwinllanconwy.co.uk
Plannwyd y winllan yn 2012, ac mae wedi tyfu nes ei bod yn ddwy erw gyda miloedd o winwydd. Mae'r mathau arbennig o winwydd hybrid wedi eu dewis yn benodol i gyd-fynd â phridd a hinsawdd Gogledd Cymru. Teithiau Tywys ar gael rhwng Chwefror a Thachwedd. Ewch i'r wefan i weld y manylion yn llawn.

CANOLFANNAU CROESO



Os bydd angen gwybodaeth bellach arnoch tra byddwch yn cynllunio eich gwyliau neu pan fyddwch yma, gallwch gysylltu neu ymweld ag un o'n Canolfannau Croeso.

AR AGOR DRWY'R FLWYDDYN

CONWY

Adeilad Muriau, Stryd Rosehill, LL32 8LD
ff: (01492) 577566
e: conwytic@conwy.gov.uk



BETWS-Y-COED

Canolfan Groeso Parc Cenedlaethol Eryri, LL24 0AH
ff: (01690) 710426 e: tic.byc@eryri-npa.gov.uk

TEITHIO O AMGYLCH

Pam na wnewch chi adael y car yn lle mae o, ymlaciwch a mwynhewch y golygfeydd drwy ddefnyddio ein rhwydwaith o fysiau a threnau. Ceir manylion llawn yn yr Arweinyfr Cludiant Cyhoeddus sydd ar gael yn y Canolfannau Croeso. Ffoniwch **Traveline Cymru** ar **0800 464 00 00** Neu ewch i **traveline.cymru**: y wefan cynllunio teithiau ac amserlenni ar gyfer cludiant cyhoeddus yng Nghymru.



Os ydych yn chwilio am wybodaeth am Landudno, Llandrillo yn Rhos a Bae Colwyn, mynnwch gopi o'r Canllawiau Poced Hanfodol hyn yn y Canolfannau Croeso neu drwy anfon e-bost: **tourism@conwy.gov.uk**



Cyhoeddwyd gan:

Tim Marchnata Twristiaeth
Gwasanaeth Datblygu Cymunedol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Adeilad y Llyfrgell, Mostyn Street
Llandudno, LL30 2RP
ffôn: 01492 575945 / 575950
© Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Dyluniwyd gan: View Creative
37 Rhos Road, Llandrillo-yn-Rhos, Conwy, LL28 4RS.
ff: 01492 542400 www.viewcreative.co.uk

Diolchiadau am y lluniau:

Martin Lyons, Dave Newbould, PM Photography, © Partneriaeth Prosiect Tywysogion Gwynedd, Glyn Roberts, © Ymddiriedolaeth Genedlaethol, © Hawlfraint y Goron (2018) Croeso Cymru.

Er bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y cyhoeddiad hwn, ni all y Cyngor dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw wallau, camgymeriadau neu hepgoriadau nac am unrhyw fater sydd mewn unrhyw ffordd yn gysylltiedig â neu'n codi o gyhoeddi'r wybodaeth yn y llyfr yn hwn.



TEITHIO O AMGYLCH

Beth am adael eich car, ymlacio a mwynhau'r golygfeydd drwy ddefnyddio ein rhwydwaith o fysiau a threnau.






GWASANAETHAU LLEOL

Mae'r mwyafrif o atyniadau i ymwelwyr yn hawdd eu cyrraedd ar drên, bws neu goets. Cofiwch gasglu copi o 'Canllaw i Gludiant Cyhoeddus Conwy' o'n Canolfannau Croeso.

Ffoniwch **Traveline Cymru** ar **0800 464 00 00**

Neu ewch i **traveline.cymru** y wefan cynllunio teithiau ac amserlenni ar gyfer cludiant cyhoeddus yng Nghymru.

ALLWEDD

 	Rheilffordd gyda gorsaf		Canolfan Groeso
	Ffin Parc Cenedlaethol Eryri		Pwynt Gwybodaeth i Ymwelwyr
	Parc Coedwig Gwydyr		Copa Mynydd

RHEILFFORDD DYFFRYN CONWY

Mae Rheilffordd Dyffryn Conwy yn rhedeg rhwng Llandudno a Blaenau Ffestiniog, drwy rai o'r golygfeydd mwyaf gwyllt a hardd yng Nghymru. Gallwch ei chyrraedd ar hyd prif reilffordd Gogledd Cymru drwy newid yng Nghyffordd Llandudno. Yng ngorsaf Blaenau Ffestiniog, mae'n cysylltu â Rheilffordd trên stem Ffestiniog i Borthmadog.

Ewch ar y trên i dref farchnad brysur Llanrwst, profwch y siopau safonol ym Metws-y-coed, ymwelwch â'r castell cain o'r 13eg ganrif yn Nolwyddelan. Ym Mlaenau Ffestiniog ewch i weld Ceudyllau Llechwedd, byd tanddaearol anhygoel glowy'r oes Fictoria, neu archwilio'r ardal ar droed gan ddilyn rhai o'r llwybrau niferus o orsafoedd lleol.

conwyvalleyrailway.co.uk

